YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Cylch Gorchwyl

# Adolygiad Achos Annibynnol – Anthony Pierce

***Crynodeb: Mae'r cylch gorchwyl hwn yn comisiynu adolygiad allanol i'r modd y gwnaeth yr Eglwys yng Nghymru ymdrin â chyhuddiad o gam-drin yn erbyn y Gwir Barchedig Anthony Pierce, a adroddwyd am y tro cyntaf ym 1993. Mae'n ceisio sefydlu (cyn belled ag y bo modd) pwy o fewn yr Eglwys a gafodd glywed am y wybodaeth berthnasol, a beth wnaethpwyd â'r wybodaeth honno. Bydd yr Adolygiad hefyd yn adolygu prosesau cyfredol yr Eglwys ar gyfer penodi Archddiaconiaid ac Esgobion a sut mae honiadau diogelu yn cael eu hystyried o fewn y broses honno.***

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn nodi ar ba sail y mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, ar ran Pwyllgor Diogelu'r Eglwys yng Nghymru, yn comisiynu Gabrielle Higgins ('yr Adolygydd') i gynnal adolygiad ('yr Adolygiad') i'r modd yr ymdriniwyd â honiad o ymddygiad amhriodol (a throseddol posibl) a wnaed yn erbyn y Parchedig (teitl ar y pryd) Anthony Pierce a ddaeth yn Esgob Abertawe ac Aberhonddu wedi hynny. Mae'r honiad yn ymwneud ag ymddygiad yn ystod neu oddeutu 1990 y mae'n ymddangos iddo gael ei adrodd gyntaf i uwch ffigyrau yn yr Eglwys yng Nghymru ym 1993. Mae'r dioddefwr bellach wedi marw, ac yn y cylch gorchwyl hwn cyfeirir ato fel 'XY'.

Nid yw'r Adolygydd wedi cael cais i adolygu materion yn ymwneud â honiad yn erbyn Mr Pierce a adroddwyd i Dîm Diogelu yr Eglwys yng Nghymru a Heddlu De Cymru yn 2023, sydd wedi arwain at achos yn y llysoedd troseddol. Os yw'r Adolygydd fel rhan o'i Hadolygiad yn nodi materion y tu hwnt i gwmpas y cylch gorchwyl hwn a allai fod yn deilwng o ymchwiliad neu adolygiad mewnol neu annibynnol pellach, gofynnir iddi godi'r mater gyda'r Ysgrifennydd Taleithiol neu Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Corff y Cynrychiolwyr fel bod modd ystyried ymestyn y cylch gorchwyl hwn neu gynnal adolygiad pellach.

## 1. Amcan a Chwmpas

1.1. Bydd yr Adolygiad yn ystyried ymateb a gweithredoedd yr Eglwys yng Nghymru, ei chlerigion, swyddogion ac aelodau yn y cyfnod rhwng 1993 a 2016. Bydd yr Adolygiad hefyd yn darparu sylwadau ar unrhyw wendidau a nodwyd o fewn y systemau cyfredol a allai beri ailadrodd camgymeriadau a wnaed, a bydd yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella'r systemau a'r prosesau hyn.

1.2. Bydd yr Adolygiad yn nodi arfer da a methiannau wrth i'r Eglwys ymdrin â'r honiad.

1.3. Bydd yr Adolygiad yn canolbwyntio ar dri chwestiwn: (1) Beth oedd swyddogion a sefydliadau yn yr Eglwys yng Nghymru yn ei wybod am gam-drin honedig a gyflawnwyd gan Anthony Pierce? (2) Beth oedd ymateb yr Eglwys a'i swyddogion i'r honiadau hynny? (3) A yw'r gweithdrefnau cyfredol sydd ar waith ar gyfer penodi Archddiaconiaid ac Esgobion yn yr Eglwys yng Nghymru yn ddigonol i sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, nad yw'n bosibl ailadrodd digwyddiadau o'r fath?

1.4. Mewn perthynas â'r cwestiwn cyntaf, bydd yr Adolygiad yn ystyried: (a) Pa wybodaeth oedd ar gael i gyrff neu swyddogion yr Eglwys yng Nghymru yn ymwneud â cham-drin honedig o XY gan Anthony Pierce; a (b) Pwy oedd yn meddu ar y wybodaeth hon a beth a wnaed (a phryd) â'r wybodaeth honno.

1.5. Mewn perthynas â'r ail gwestiwn, bydd yr Adolygiad yn ystyried: (a) Pan adroddwyd am y cam-drin, a wnaeth cyrff a swyddogion perthnasol yr Eglwys yng Nghymru ymateb mewn modd amserol a phriodol, a (b) pa wersi ychwanegol y mae modd eu dysgu sy'n berthnasol ac a allai wella arferion diogelu yn yr Eglwys.

1.6. Mewn cysylltiad â'r trydydd cwestiwn, bydd yr Adolygydd yn ystyried y darpariaethau cyfredol ar gyfer adnabod, cyfeirio, cynnal gwiriadau diogelu a diwydrwydd dyladwy eraill ar gyfer ymgeiswyr a ystyrir ar gyfer swydd Esgobol, cyn eu hethol a rhwng eu hethol a chadarnhau eu hethol. Bydd yr Adolygydd hefyd yn ystyried y darpariaethau cyfatebol ar gyfer ymgeiswyr a ddewisir yn Archddiaconiaid.

## 2. Cynnwys

2.1. Bydd yr Adolygydd yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ('yr Adroddiad') ar ffurf sy'n addas i'w gyhoeddi yn unol ag adran 5 isod.

2.2. Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, bydd yr Adolygydd yn ateb y tri chwestiwn a nodir ym mharagraff 1.3 uchod.

2.3. Lle mae anghydfod neu ddiffyg eglurder ar ffeithiau, gofynnir i'r Adolygiad roi barn, wedi'i lywio gan ei barn broffesiynol, ynghylch pa fersiwn o ddigwyddiadau yw'r mwyaf tebygol yn ôl pwysau tebygolrwydd.

2.4. Gofynnir i'r Adolygydd yn benodol roi ei barn ar benderfyniadau a wnaed ar yr adegau canlynol:

2.4.1. 1993 (datgeliad gwreiddiol)
2.4.2. 1995 (penodiad fel Archddiacon)
2.4.3. 1999 (etholiad, cadarnhad o etholiad yn Esgob)
2.4.4. 2009-2010 (adolygiad hanesyddol o achosion, cyfeirio at awdurdodau statudol, dileu Caniatâd i Weinyddu)
2.4.5. 2011 (adfer Caniatâd i Weinyddu)
2.4.6. 2016 (dileu Caniatâd i Weinyddu)

## 3. Deunydd ysgrifenedig perthnasol

Bydd adrannau Cyfreithiol a Diogelu Corff y Cynrychiolwyr yn darparu'r holl ddeunydd perthnasol yn eu meddiant i'r Adolygydd. Bydd yr adrannau hyn hefyd yn darparu pob

cymorth rhesymol i'r Adolygydd gael gafael ar wybodaeth berthnasol bellach gan unrhyw drydydd parti (a gall yr Adolygydd hefyd wneud ceisiadau i drydydd partïon yn uniongyrchol am unrhyw wybodaeth sydd ganddynt).

## 4. Cyfweleion perthnasol

4.1. Penderfyniad yr Adolygydd yn unig yw pwy i'w gyfweld neu gyfarfod.

4.2. O ran cynnig cyngor a chymorth yn unig, bydd adran Gyfreithiol Corff y Cynrychiolwyr yn rhoi rhestr o bobl a allai wneud cyfraniad buddiol i'r Adolygydd wrth iddi gynnal yr Adolygiad. Nid yw'n ofynnol i'r Adolygydd geisio cyfweld neu gyfarfod ag unrhyw un o'r unigolion hynny, a gall geisio cyfweld ag eraill.

4.3. Bydd adrannau Cyfreithiol a Diogelu Corff y Cynrychiolwyr yn darparu'r holl gymorth rhesymol i'r Adolygydd wrth drefnu cyfarfodydd (boed ar-lein neu wyneb yn wyneb).

## 5. Cyhoeddi

5.1. Bydd y cylch gorchwyl hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Eglwys yng Nghymru.

5.2. Yn ogystal â'r Adroddiad a gyhoeddir, gall yr Adolygydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Taleithiol, gyda chopi at Gadeirydd Pwyllgor Diogelu yr Eglwys yng Nghymru a'r Archesgob, gydag unrhyw gyngor y mae'r Adolygydd yn dymuno ei gynnig i'r Eglwys yng Nghymru ond na all fod yn rhan resymol o'r adroddiad a gyhoeddir. Os bydd yr Adolygydd yn penderfynu gwneud hyn, rhaid nodi crynodeb byr (wedi ei anonymeiddio'n briodol yn ôl yr angen) o'r pynciau a'r materion a godwyd yn yr Adroddiad.

5.3. Pan fo unigolyn byw yn destun beirniadaeth yn yr Adroddiad (naill ai ym marn yr Adolygydd neu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), bydd yr unigolyn hwnnw yn cael cyfle i ymateb neu wneud sylwadau ar y feirniadaeth a wnaed cyn cyhoeddi'r Adroddiad, a bydd yr Adolygydd yn ystyried sylw o'r fath wrth gwblhau'r Adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi.

5.4. Bydd fersiwn derfynol yr Adroddiad yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Taleithiol a Chadeirydd Pwyllgor Diogelu'r Eglwys yng Nghymru.

5.5. Bydd yr Ysgrifennydd Taleithiol yn gyfrifol am gyhoeddi'r Adroddiad ar wefan yr Eglwys yng Nghymru o fewn mis i'w dderbyn.

5.6. Bydd yr Adolygydd yn gwneud ei gorau glas i ddarparu adroddiad y mae'n bosibl ei gyhoeddi'n llawn yn gyfreithlon. Gall y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â Rheolwr Diogelu Data Corff y Cynrychiolwyr a'r Cyfarwyddwr Diogelu, wneud defnydd o olygiadau yn y fersiwn gyhoeddedig o'r Adroddiad, ond dim ond i gadw cyfranogwr yn yr Adolygiad yn anhysbys lle bo hynny'n briodol, i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, neu i liniaru risg sylweddol o ymgyfreitha. Bydd y rheswm dros unrhyw olygiadau yn cael ei anodi ar yr Adroddiad a gyhoeddir.

## 6. Amserlen

6.1. Bydd yr Adolygiad yn cychwyn ar unwaith ar ddiwedd gwirioneddol yr achos troseddol presennol yn erbyn Anthony Pierce.

6.2. Os yw'n bosibl, bydd yr Adolygiad yn dod i ben o fewn tri mis i'w ddechrau. Bydd yr Adolygydd yn darparu diweddariadau cynnydd byr i'r Ysgrifennydd Taleithiol bob mis.

**Canon Simon Lloyd**
Ysgrifennydd Taleithiol, Yr Eglwys yng Nghymru
Prif Weithredwr, Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
6 Chwefror 2025